Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

BLAEN-Y-COED

Ar fore Sul, 30ain Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y plant. Eu thema eleni oedd Y Beibl ac fe gawsom stori Mari Jones a'i hymdrechion diflino i sicrhau Beibl iddi hun. Roedd cerdded y daith hir i'r Bala yn dipyn o gamp i ferch ifanc ond cymaint oedd ei dymuniad i gael Beibl Cymraeg fel na fedrodd dim ei rhwystro. Diolch oedd testun Mari Jones a diolch wnaeth y plant hefyd am bawb a phopeth sy'n gwneud eu bywyd bob dydd yn llawn hwyl a chariad. Diolch i Aron a Nerys am eu hyfforddi ac i Sioned am fod yn gyfrifol am y canu.

Ymweld ag Aberfan

Yn y prynhawn teithiodd plant ac aelodau Blaen-y-coed ynghyd a ffrindiau o gapel Bryn Iwan draw i Aberfan. Ar ben hanner canrif ers y gyflafan a ddigwyddodd yn y pentre' roedd yn addas i ni dalu ymweliad â'r lle. Gardd Goffa sydd i'w gweld heddi ar safle Ysgol Pantglas ac yno cawsom wasanaeth byr er parch i'r rhai a gollodd eu bywydau ar y bore trychinebus hwnnw ym mis Hydref 1966. Gosododd y plant dorch fach o flodau yn yr ardd i gofio. Cerddwyd wedyn i fyny at y fynwent er mwyn gweld y rhesi gwyn o gofebion, pob un yn dal llaw a'r un nesa. Golygfa na ellir ei anghofio.

Elsbeth Page

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd

Mae Sul cyntaf mis Hydref yn ddiwrnod pwysig iawn yng nghalendr Eglwysi Undebol Pontarddulais a'r Hendy gan mai ar y diwrnod hwnnw y cynhelir ein Cymanfa Ganu yn flynyddol. Yr arweinydd gwadd eleni oedd Ryan Lee o Borth Tywyn. Mae Ryan yn adnabyddus fel arweinydd Côr Meibion Porth Tywyn a chyfarwyddwr cerdd Cwmni Opera Porth Tywyn. Eleni gan fod gwaith yn cael ei wneud ar adeilad Capel Hope-Siloh bu'n rhaid cynnal Cymanfa'r Ifanc yn Neuadd yr Ysgol Gyfun a Chymanfa'r Oedolion yng Nghapel Tabernacl Pontarddulais. Braf oedd gweld neuadd yr ysgol yn llawn ar gyfer Cymanfa'r Ifanc yn y bore. Cefnogwyd y Gymanfa eleni eto gan Ysgolion Cynradd yr Hendy a Bryniago ac Ysgolion Cyfun y Strade a Gŵyr. Rydym fel eglwysi yn ymfalchïo yn y pedair ysgol ac yn gwerthfawrogi'n fawr eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r Gymanfa. Plant yr ysgol Sul fu'n cyflwyno'r emynau a rhaid eu llongyfarch am safon eu cyflwyniadau. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol yn raenus iawn gan Tomos a Llŷr - plant Ysgol Sul Hope-Siloh - a'r llywydd oedd Jennifer Clarke. Roedd y Gymanfa yn llawn hwyl a'r ieuenctid wrth eu bodd yn canu'r emynau i gyfeiliant band teulu'r Tiplady sef Llŷr, Siôn a Rhys gyda Luned Mair ar yr allweddell ac Ian Lewis ar y piano.

Cymanfa'r Hwyr

Llywydd yr hwyr oedd Marie-Lynne Jones o Gapel Hope-Siloh gydag Ian Lewis yn chwarae'r organ. Cyflwynwyd y rhannau arweiniol yn ddefosiynol iawn gan y Parch Llewelyn Picton Jones gweinidog Hope-Siloh. Cafwyd canu deallus, cerddorol a disgybledig gyda Ryan Lee yn llywio'r cyfan yn fedrus. Cyflwynwyd eitem gan barti Lleisiau Lliw a diolch iddynt hwythau hefyd am gyfraniad gwerthfawr iawn. Eleni unwaith eto bu'r Gymanfa yn llwyddiant mawr ac fel arfer rydym yn ddiolchgar iawn i Eric Jones am ei waith caled a diflino yn hyfforddi mynychwyr yr Ysgol Gân yn ystod mis Medi. Edrychwn ymlaen at glywed detholiad o'r Gymanfa ar 'Caniadaeth y Cysegr' yn y dyfodol.

Jennifer Clark

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 51 Rhagfyr 15, 2016 50c.

Ymweliad Gweithwyr CWM

Rhywdro yn ystod misoedd Ebrill a Thachwedd, a hynny ers rhai blynyddoedd bellach, mae staff swyddfa Rhanbarth Ewrop CWM (*Council for World Mission*) wedi dod ar ymweliad â'r Undeb yn Nhŷ John Penri ar gyrion Abertawe.

Mae'r ymweliadau hyn yn ddigwyddiadau o bwys yng nghalendr yr Ysgrifennydd Cyffredinol, a hynny oherwydd bod yr Undeb, dros y blynyddoedd, wedi cael ei alluogi trwy nawdd CWM i wneud pethau na fyddent wedi bod yn bosibl o gwbl fel arall.

Gan mai'r Parchg Wayne Hawkins yw Ysgrifennydd Cenhadol Rhanbarth Ewrop CWM ar hyn o bryd, ef a'i gynorthwyydd, David Cruchley, ddaeth i Abertawe ar 21 Tachwedd, a hynny i dreulio tridiau yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cyffredinol ac eraill yn trafod gweithgarwch a chynlluniau cenhadol yr Undeb. Nid oedd prinder o bynciau i'w trafod, a dyma rai ohonynt.

Blwyddyn Medrau

Yn gyntaf, nodwyd fod tri o bobl ifanc wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth yn ardal Caerdydd trwy fod yn rhan o'r **Cynllun Datblygu Medrau** oedd yn digwydd ar y cyd rhwng Eglwys Ebeneser ac Eglwys Glenwood. Gwaetha'r modd, ni lwyddwyd i ddod o hyd i rywun ar gyfer y drydedd flwyddyn o'r prosiect, sef 2016-17, ond trwy hysbysebu mwy effeithiol yn y flwyddyn newydd, gobeithir cael rhywun ar gyfer 2017-18.

Cynlluniau 2017

Cyfeiriwyd at gais CWM i'r Undeb, ochr yn ochr ag enwadau eraill, gyflwyno syniad am gynllun y gellid ei fabwysiadu a'i wireddu yn 2017, syniad yn ymwneud â chyfraniad a **lle'r rhai ag anableddd** yn yr eglwysi. Nodwyd fod nifer o enghreifftiau o ymarfer da yn ein plith ac awgrymwyd mai da o beth fyddai hel rhai o'r enghreifftiau gorau at ei gilydd er mwyn medru rhannu'r hanesion ag eglwysi ac enwadau eraill ar draws y byd. Bydd y cais yn cael ei gyflwyno maes o law, a bydd yn rhaid aros wedyn i weld a fydd CWM am ei weithredu.

Newid Hinsawdd

Bu sôn yng Nghyngor yr Undeb am y posibilrwydd o gael ymwelydd o Bangladesh i ddod atom i gyfoethogi a gloywi ein dealltwriaeth o effeithiau **newid hinsawdd**, pwnc y mae'n bwysig ein bod yn ei gadw ar flaenau'n meddyliau ac yn amlwg yn ein gweithgareddau. Nodwyd yn y trafodaethau yn Nhŷ John Penri, oedd mewn un sesiwn yn cynnwys y Parchgn Jill-Hailey Harries a Jeff Williams, dau a fu'n Ymddiriedolwyr i CWM, nad oedd yn rhaid cyfyngu'r dewis i Bangladesh gan fod ynysoedd y Môr Tawel, er enghraifft, yn byw gyda'r un gofidiau, a rhai ohonynt yn debygol o ddiflannu yn ystod y degawdau nesaf. Awgrymwyd hefyd mai da o beth fyddai troi unrhyw gyfres o gyfarfodydd a fyddai'n cael eu trefnu yn gydenwadol.

DATHLU DEUGAIN MLYNEDD MEWN GOFALAETH

Bu 2016 yn garreg filltir arbennig yn hanes Eglwysi Ebeneser Abergwili a Phant-teg Felinwen ger Caerfyrddin, yn ogystal â'n gweinidog y Parchg Emyr Lyn Evans. Trefnwyd gwasanaeth i ddathlu deugain mlynedd o'i weinidogaeth yn ein plith. Nid yw hyn yn beth dieithr i Ebeneser oherwydd dim ond tri gweinidog - sef David Williams, Moelwyn Daniel ag Emyr Lyn Evans - fuodd yn Ebeneser dros gyfnod o 116 o flynyddoedd. Record arbennig iawn! Ymddeol wnaeth pob gweinidog, ac nid derbyn galwad i gylch newydd.

Urddas Perffaith

Anodd credu bod 40 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gweinidog, Mrs Evans ac Iestyn symud i'n plith. Hedfanodd y blynyddoedd yn heddychol a chytûn ac yn sicr fe dyfodd ein parch a'n hedmygedd o'n gilydd. Mae rhinweddau unigryw i weinidogaeth Emyr Lyn a gall bob un o'i aelodau dystio ei fod yn cyflawni'r swydd ag urddas perffaith. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn i'r gweinidog ddiogelu a chadw

parhad ar dudalen 7

Cenhadaeth

Bu trafod ar gynllun '**Partneriaeth mewn Cenhadaeth**' CWM, cynllun sy'n golygu symud rhywun o un wlad neu o un diwylliant i wlad a diwylliant arall a hynny gyda'r nod o gyflawni cenhadaeth a chael mewnweledia ffres wrth wneud hynny. Trafodwyd mai Cymry Cymraeg yw'r mwyafrif llethol o Annibynwyr Cymru, ond dywedwyd fod CWM erbyn hyn wedi newid y canllawiau ar gyfer y prosiect hwn, ac yn caniatáu tymor gwasanaeth o hyd at 9 mlynedd i'r sawl fyddai am ymgymryd â'r gwaith, cyfnod fyddai'n caniatáu i rywun ddysgu iaith cyn bwrw ati i wneud y gwaith. Gan fod hwn yn ddatblygiad pwysig, penderfynwyd edrych y posibiliadau ar gyfer y dyfodol yn fanylach, a bydd y drafodaeth honno yn digwydd cyn gynted â phosibl.

Rhaglen Datblygu

Gyda chyfnod **Rhaglen Datblygu** Annibynwyr Cymru yn tynnu tua'i derfyn yn ystod 2017, da oedd cael trafodaeth ar y cam nesaf i'r Undeb. Rhaid i'r grant cenhadaeth sy'n cael ei chynnig gan CWM

parhad ar dudalen 2

Gostyngeiddrwydd – Darostyngodd ei hun

Mae Mathew ym mhennod 20: 24 o'i Efengyl yn cyfeirio at ddigwyddiad digon annymunol, lle mae mam Iago ac Ioan yn mynd at Iesu gan ofyn a fyddai ei meibion yn cael safle o awdurdod pan fyddai'n dod i deyrnasu? Enynnodd hyn deimladau cas ymhlith y disgyblion eraill ac felly galwodd Iesu hwy at ei gilydd a dywedodd wrthynt,

"Dych chi'n gwybod sut mae'r rhai sy'n llywodraethu'r cenhedloedd yn ymddwyn – maen nhw wrth eu bodd yn dangos eu hawdurdod ac yn ei lordio hi dros bobl. Ond rhaid i chi fod yn wahanol. Rhaid i'r sawl sydd am arwain ddysgu gwasanaethu, a phwy bynnag sydd am fod yn geffyl blaen fod yn was i eraill. [28] Wnes i, hyd yn oed, ddim disgwyl i bobl eraill fy ngwasanaethu i, er mai fi ydy Mab y Dyn; des i fel gwas i aberthu fy mywyd er mwyn talu'r pris i ryddhau llawer o bobl." Math 20: 25 - 28

Dysgu'r Wers

Buasech yn meddwl y byddent wedi dysgu'r wers, ond nid felly y bu. Rhai dyddiau yn ddiweddarach wrth iddynt gyrraedd Jerwsalem i ddathlu'r Pasg yr oeddent yn dal gyda'r agwedd meddwl hwn. Roedd Pedr ac Ioan wedi trefnu ystafell i fwyta ynddi ond nid oeddent wedi trefnu neb i olchi traed y gwahoddedigion. Roedd hwn yn arfer disgwyliedig. Nid oedd neb o'r disgyblion ychwaith yn barod i ddarostwng eu hunain i wneud y gwaith israddol hwn. Roedd y disgyblion yn lled orwedd wrth y byrddau yn dechrau bwyta gyda'u traed budron yn ymestyn allan. Yna, yn dawel fwriadus, cododd yr Athro, tynnodd ei grys a gwisgodd liain am ei ganol fel gwas. Tywalltodd ddŵr i mewn i ddesgil ac yn araf symudodd o amgylch y bwrdd yn golchi traed y disgyblion. Dyma olygfa wefreiddiol. Iesu mab ymgnawdoledig Duw yn golchi traed ei ddisgyblion balch. Cwbl syfrdanol. "Hwn yw ein Duw y brenin tlawd." A dywedodd,

"Felly, am fy mod i, eich Arglwydd a'ch Athro wedi golchi'ch traed chi, dylech chi olchi traed eich gilydd. Dw i wedi rhoi esiampl i chi er mwyn i chi wneud yr un peth i'ch gilydd. Credwch chi fi, dydy caethwas ddim uwchlaw ei feistr, a dydy negesydd ddim yn bwysicach na'r un wnaeth ei anfon e. Io 13: 14 – 16

Mae gostyngeiddrwydd yn wers anodd ei dysgu. Ond mae'r hanesion hyn yn fynegiant pellach o ryfeddod yr ymgnawdoliad, yr hyn yr ydym yn ei ddathlu pob Nadolig. Wrth i Dduw ddod i'r byd yn Iesu, mewn baban, gwelwn ogoniant Duw, ei gariad a'i ras, a'i natur.

"Crewr yn crio mewn cadach"

Wrth geisio dysgu gostyngeiddrwydd i'r Cristnogion yn Philipi fe roddodd Paul yr esiampl fwyaf yn hanes tragwyddoldeb o ostyngeiddrwydd sef fod Duw wedi dod i'r byd yn Iesu. Ysgrifennodd,

"Peidiwch â gwneud dim o gymhellion hunanol nac o ymffrost gwag, ond mewn gostyngeiddrwydd bydded i bob un ohonoch gyfrif y llall yn deilyngach nag ef ei hun. Bydded gofal gan bob un ohonoch, nid am eich buddiannau eich hunain yn unig ond am fuddiannau pobl eraill hefyd." (Php 2:3-4)

Ac yna ychwanegodd,

Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tradyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad. (Php 2:5-11)

Penffrwydrol

Mae'r geiriau hyn yn benffrwydrol ac yn ennyn addoliad ynom. Fel un o bersonau'r Drindod gadawodd Iesu ei ogoniant yn y nef, nid oherwydd ei fod yn gorfod ond oherwydd ei fod yn dewis gwneud hynny yn ei gariad, "fe'i darostyngodd ei hun." Gwelai Duw gyflwr enbydus dynoliaeth a'i hangen dirfawr amdano Ef a'i iachawdwriaeth, ei gyfiawnder a'i heddwch, ac felly, "fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. Daeth a gwisgodd ein cnawd, daeth yn un ohonom ni. "

Yn ei gariad tuag atom darostyngodd Duw ei hun a dod i'n plith fel ei fod yn gallu ein hachub a chydymdeimlo yn llwyr gyda'n cyflwr. "O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes." Darostyngodd ei hun nes iddo farw ar groesbren yn ein lle ac yna atgyfodi gan ddod a gobaith iachawdwriaeth i ddynoliaeth anufudd. Mae dwyfoldeb Iesu yn ffaith sylfaenol sy'n gwneud Cristnogaeth yn rhesymol a chredadwy.

Dathlwn y Nadolig hwn eto fod Duwdod wedi dod mewn baban i'n byd.

Ymweliad Gweithwyr CWM

parhad o'r dudalen flaen

(tua £90,000) gael ei thalu cyn 2019 neu bydd yr Undeb yn colli'r arian. Wrth reswm, rhaid cyflwyno cynllun cenhadol rhesymol, adeiladol, buddiol a chynaliadwy er mwyn i hyn ddigwydd, a bydd yn rhaid i'r drafodaeth ddigwydd yn gynnar yn 2017. Mae angen meddwl, felly, i ba gyfeiriad y mae angen i ni fynd, a chroesewir pob syniad ac awgrym gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

Llongyfarchwyd yr Undeb ar gynllun '**Y Ffordd**' a'r gwaith graenus sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr a staff yr Undeb. Nodwyd hefyd gefnogaeth hael Ymddiriedolaeth Capel King's Cross ac Eglwys Harrow i'r prosiect arbennig hwn sydd wedi tyfu allan o gefnogaeth a nawdd cynharach a dderbyniwyd gan CWM.

Y Gymraeg a Chefn Gwlad

Yn y Cyngor ym mis Hydref, gofynnwyd dau gwestiwn gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, a mabwysiadwyd y ddau gan y Cyngor cyfan. Y cyntaf oedd, 'Os yw Llywodraeth Cymru yn gobeithio sicrhau **miliwn o siaradwyr Cymraeg** erbyn y flwyddyn 2050, beth yw cyfraniad yr eglwysi yn mynd i fod tuag at sicrhau

cyrraedd y targed hwn?' Yr ail oedd, 'O ystyried natur a lleoliad cynifer o eglwysi Annibynnol Cymraeg, pam nad oes gan yr Undeb bwyllgor, uned neu Adran sy'n ymdrin yn benodol â materion sy'n **ymwneud â chefn gwlad ac â byd amaeth**?' O glywed y ddau gwestiwn, cafwyd sicrwydd y byddai CWM yn hynod gefnogol i unrhyw syniadau y byddem am eu datblygu yn dilyn trafodaeth ehangach o fewn yr Undeb.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, bu'r Parchg Wayne Hawkins yn arwain sesiwn ar ffoaduriaid yn Niwrnod **Gweinidogion y De** ym Methania, Tymbl Uchaf. Diolchwn iddo ef ac i David am eu mewnbwn a'u cyfraniadau i ddatblygiad ein syniadau a'n bwriadau ar gyfer y dyfodol, ac edrychwn ymlaen at eu gweld yn ymweld â ni eto yng ngwanwyn y flwyddyn nesaf.

ADREF

Wrth feddwl am gyflwr ein byd y Nadolig hwn a'r 65 miliwn o ffoaduriaid, rhannwn gyda darllenwyr y Tyst y gerdd rymus hon, sef "Adref". Darllenwyd y gerdd gan y Parchg Robin Samuel yn ystod ei fyfyrdod yn niwrnod hyfforddi gweinidogion y De a gadawodd argraff ddofn ar bawb oedd yn bresennol.

Does neb yn gadael adref oni bai bod adref fel safn siarc.
Dwyt ti ddim yn croesi ffin i wlad arall am byth, oni bai bod llond tre o bobl yn rhedeg gyda thi hefyd.
A phan fyddi di'n rhedeg fel gwnes i, mae dy gymdogion yn rhedeg yn gynt na ti, ac anadl yn waed yn eu gyddfau.

Pam? Achos rwyt ti'n gweld mai'r bachgen roddodd gusan iti tu ôl i'r hen ffatri dun pan oeddet ti'n blentyn, yw'r un sy'n dal baril y gwn i dy ben, a ti'n **gorfod** gadael adref.

Ti'n gadael oherwydd bod adref yn gwrthod gadael iti **aros** adref.
Mae adref yn dy hysio, yn dy ymlid i ffwrdd
am fod tân yn y llofftydd,
a gwaed ar lawr y gegin
a'r ffenestri'n fwledi teilchion.

Mae'n rhaid i ti ddeall
nad oes neb yn rhoi eu plant mewn cwch,
os nad ydi'r dŵr yn saffach na'r ddaear dan draed.
Does neb yn llosgi cledrau'u dwylo o dan drenau,
nac yn chwydu am nosweithiau mewn stumog tryciau,
nac yn straffaglu drwy dyllau ffensys,
nac yn dioddef cael eu curo a'u pitïo
a hynny er mwyn cyrraedd y 'nunlle saff' am ddim rheswm.

Does neb yn dewis byw mewn gwersyll ffoaduriaid
na'n gwirfoddoli cael eu dadwisgo'n noeth rhag ofn bod cyllell wedi cuddio ar eu cyrff.
Does neb yn dewis lloches ffoadur na sach gysgu dyllog ar lwybr caregog.
Na, does dim dewis - tydi adref ddim yn ddiogel bellach.

Does neb yn dioddef enllib, 'Dos adref ffoadur! Ti'n drewi! Ti'n sbynjar! Ti'n straen ar ein gwlad!'
Ond mae hynny'n llawer haws na gweld dy blant yn cael eu treisio
a dy fam-gu yn cael ei llabyddio.
Mae geiriau maleisus yn haws na llyncu galar ac artaith.

Cofiwch fod adref nawr fel safn y siarc.
Adref yw blas y fwled,
ac adref sydd wedi fy ymlid at draeth y môr
ac sydd wedi mynnu fy mod yn gadael fy nillad budr ar eich glannau.
Adref sydd wedi fy ngorfodi i nofio drwy gefnfor,
boddi, achub, llwgu, begera,
a cholli fy malchder er mwyn goroesi.

Does neb yn gadael adref heb fod adref yn sibrwd yn dy glust di yn dweud
"Dos, cer, ffo oddi wrtha i…
Ffwrdd â thi, achos dydi adref ddim yn adref ddim mwy.
Mae dy adref di fel safn y siarc.
Dianc oddi wrtha i oherwydd rwy'n gwybod,
bod rhywle yn fyw diogel o lawer iti na'r adref alla i roi iti yma."

Addasiad rhydd i'r Gymraeg gan Gwawr Maelor o'r gerdd 'Home' gan Warsan Shire

Warsan Shire

DATHLU DEUGAIN MLYNEDD MEWN GOFALAETH

parhad o'r dudalen flaen

urddas y pulpud wastad, gan wneud ni fel aelodau sylweddoli ein bod wastad yn bresennol mewn oedfa. Diolch am y pregethau cyson ar hyd y blynyddoedd ac am y modd unigryw y llwydda i'n harwain tuag at orsedd gras ac at fwrdd y Cymun. Mae yn rhyfedd ofalus a thirion o'r hen a'r methedig yn ei ymweliadau cyson a'u haelwydydd ac wrth weinyddu Swper yr Arglwydd iddynt yn ogystal a'i ymweliadau â'r claf yn yr ysbyty. Cyfeiria'r Parchg Emyr Lyn yn aml yn ei weddïau at '*leisiau'r nyrsys sy'n meddalu llais yn ymyl y gwan*'. Yn ddi-os mae ei ymweliadau cyson ef ar hyd coridorau Ysbyty Glangwili hefyd yn cysuro'r cleifion.

Gofal Diflino

Mae'r gweddïau sy'n cael eu hoffrymu bob Sul ganddo yn ein codi o afael pethau man a darfodedig. Glynodd at gyngor y Parchg W. Rhys Nicholas fod gweddïo brawddeg neu ddwy o'r frest yn well na darllen gweddi hir. *"Ti'n gweld - wyt ti byth yn anfon llythyr i'r Hwn sydd wastad wrth dy ysgwydd."* Diolch i'r Parchg Emyr Lyn Evans am ei weinidogaeth a'i ofal diflino amdanom pa gyflwr bynnag y bom. Mae e'n sicr wedi cadw yn driw i'w alwedigaeth ar hyd y blynyddoedd ac rydym yn ei longyfarch yn fawr fel eglwysi am hynny. Diolch o galon iddo ac i Mrs Evans. Yn dilyn yr Oedfa braf oedd cael cymdeithasu yn y festri a mwynhau'r lluniaeth wrth hel ambell atgof o'r blynyddoedd a aeth heibio.

Undeg Evans

Diolch Plant Bethel, Sgeti

Croesawyd ni ar fore Sul y diolchgarwch gan flodau a ffrwythau hyfryd wrth ddrws y capel.

Roedd y capel wedi'i addurno'n ddeniadol hefyd. Roedd cynulleidfa dda wedi ymgasglu o bobl Bethel a Trinity. Agorwyd y gwasanaeth drwy ddarlleniad a gweddi wedi'u cyflwyno'n eglur iawn gan Elena ac Elin yn diolch am ffrwyth y cynhaeaf.

Dished

Yna, fe wnaeth y plant i gyd ddiolch i Dduw am fwyd a chymryd dished o de a bisgedi siocled yn enghraifft syml. Eto, mae te yn dod o Sri Lanka, Kenya ac India a siocled o Ghana yn yr Affrig. Rhaid wrth flawd a siwgr hefyd wrth gwrs, felly mae tipyn o daith ac ymdrech i gael y te a'r fisgïen! Roedd y plant wedi paratoi mapiau o'r gwledydd ac wedi dod â chynhwysion ac roedd yr eitemau hynny'n cael eu cyflwyno i'r Banc Bwyd ar ddiwedd yr oedfa. Diolchwyd bod digonedd gyda ni, ond atgoffwyd ni bod eisiau rhannu a bod yn garedig wrth eraill, a'n bod yn dibynnu ar ein gilydd am ein bwyd.

Dathlu'r Cread

Cyflwynodd y Parchg Jill-Hailey Harries stori'r cread. Creodd Duw oleuni, dŵr, tir a phlanhigion, dydd a nos, pysgod ac adar a chreaduriaid y ddaear cyn gorffwys ar y seithfed dydd. Fe ddarluniodd y plant yr hyn a grëwyd bob dydd gydag ystumiau a siapiau a ffeindio bod rhaid cael y cyfan a grëwyd cyn y gellid byw. Crëwyd y byd i bawb i rannu ohono.

DALIER SYLW

Bydd Tŷ John Penri ar gau dros wyliau'r Nadolig, o ddydd Mercher, 21 Rhagfyr 2016, hyd 9.00am fore Mawrth, 3 Ionawr 2017.

Os bydd angen, gellir cysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Ddr Geraint Tudur ar y teleffon trwy alw **07909-976908**, neu trwy anfon e-bost at:

undeb@annibynwyr.cymru

Diolch am bob cefnogaeth i'r Undeb yn ystod 2016, a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd.